**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Lun Medi 5ed 2016 am 6.30 yr hwyr yng Nghanolfan Bro Cernyw.

Ymddiheuriadau: nid oedd ymddiheuriad.

Presennol – Gwydion A Jones (Cadeirydd), Diane M Roberts, Elen H Edwards, R Emlyn Williams, Gwyn Williams, Ian W Griffith, Ifor G Edwards, Ann O Vaughan a'r Clerc. Ymunodd D Gwynfor Davies â'r cyfarfod yn hwyrach.

57.1 DATGAN CYSYLLTIAD - rhoddwyd cyfle i'r aelodau ddatgan cysylltiad ag eitem ar yr Agenda. Mynegodd Gwydion Jones ddiddordeb yn Eitem 4b) Cais Cynllunio rhif 0/43075

57.2 MATERION FFYRDD AC AMGYLCHEDD – gofynnwyd pryd fydd yr Adran Priffyrdd/Pontydd yn dechrau'r gwaith ar bont dros afon Dyffryn Gall – y Clerc i gysylltu. Adroddwyd bod arwyddion rhybudd plant yn chwarae wedi eu gosod ym Mhandy Tudur.

57.3 BAGIAU HALEN – derbyniwyd ateb gan Gyngor Conwy yn datgan mai'r Cyngor Cymuned fydd yn gyfrifol am yswirio'r cynllun bagiau halen. PENDERFYNWYD yn unfrydol i beidio ymuno â'r cynllun.

Cyrhaeddodd D Gwynfor Davies y cyfarfod.

57.4 MATERION CYNLLUNIO
57.4.1 Cais Rhif 0/43036 Ail-godi sied amaethyddol ar dir ger Pentre Smithy, Llangernyw gan Mr Dwyfor Roberts – PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais os yw'r fynedfa yn addas gan nad yw lleoliad y giât yn glir ar y cynllun.
57.4.2 Cais Rhif 0/43075 Addasu llawr caled amaethyddol yn Hendre Llwyn y Maen, Llangernyw gan Mr Robin Crossley – gadawodd Gwydion Jones y cyfarfod a daeth yr Is Gadeirydd Gwyn Williams i'r gadair. PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais.
Daeth Gwydion Jones yn ôl i'r cyfarfod.
57.4.3 Uwchraddio Mast Telegyfathrebu yn Gallt y Celyn, Pentrefoelas gan Clarke Telecom – cafwyd golwg ar y cais er gwybodaeth. Roedd y Clerc wedi anfon sylwadau o ddim gwrthwynebiad wedi ymgynghori â'r Cadeirydd yn ystod y gwyliau.

57.5 TOILEDAU LLANGERNYW
Derbyniwyd llythyrau gan y Cyfreithwyr Howell Jones a dogfennau ynglŷn a lleoliad y toiled ac yn gofyn am daliad cyn dechrau'r gwaith. PENDERFYNWYD yn unfrydol i arwyddo'r contract a thalu'r swm cychwynnol. Hefyd i ofyn a fyddai modd trosglwyddo yn syth i Menter Bro Cernyw ond i nodi yn y cytundeb bod cynnig cyntaf i brynu'r toiledau yn dod i'r Cyngor Cymuned os bydd y cwmni yn dirwyn i ben. Y Clerc i nodi ein bod yn cytuno â Chynllun y Swyddfa Gofrestru Tir o ran lleoliad y toiledau. Aeth dau aelod a'r Clerc draw i fesur y ffiniau yn dilyn y cyfarfod. Hefyd penderfynwyd i'r Clerc gysylltu â Steve Teale, Cyngor Conwy i esbonio'r sefyllfa a rhoi amcangyfrif o'r costau ac i anfon copi at Elen Edwards.

57.6 CYFETHOL AR Y CYNGOR CYMUNED – esboniwyd bod rhybudd wedi ei arddangos yn gwadd enwebiadau ar gyfer y sedd wag yn Ward Gwytherin a deallir bod rhai wedi dangos diddordeb. PENDERFYNWYD i ofyn iddynt ysgrifennu at y Cyngor yn nodi eu cefndir a rhoi rhesymau am eu hawydd i gynrychioli cymuned Gwytherin (dim mwy na 200 o eiriau) a'r llythyrau i'w derbyn cyn y cyfarfod nesaf.

57.7 CYNIGION I GYFARFOD BLYNYDDOL UN LLAIS CYMRU – aethpwyd drwy'r cynigion gan gynghori'r Cadeirydd sut i bleidleisio yn y Cyfarfod ar Hydref 1af.

57.8 LLYTHYR GAN ARQIVA YNGLŶN Â MAST PEN Y FRON, GWYTHERIN – derbyniwyd copi o lythyr drwy law Mr David Jones AS gan gwmni Arqiva yn nodi pam na aethpwyd ymlaen â'r prosiect – problemau gyda'r darparwr morgais ac anawsterau technegol gyda'r ail safle a diffyg amser i gwblhau'r cynllun. PENDERFYNWYD i nodi hyn yn y Cylchlythyr nesaf ac anfon copi o'r llythyrau at Elen Edwards.

57.9 CYSYLLTU FFERMYDD GWYNT GOGLEDD CYMRU – derbyniwyd llythyr yn nodi bod yr apêl i osod ceblau trydan dan ddaear wedi ei wrthod.

57.10 GOSOD GOLEUADAU NADOLIG – y Clerc i anfon y rheolau ymlaen at Ian W Griffith a Phwyllgor Canolfan Bro Cernyw.

57.11 GOHEBIAETH – y Clerc i anfon rhain ar ebost i'r aelodau.

57.12 MATERION LLEOL
57.12.1 Anodd iawn ymuno â'r A548 ger y Stag a ceir yn gor-yrru drwy'r pentref.
57.12.2 Llwybr cyhoeddus ger y Tafarn y Bont wedi ei symud - angen cysylltu eto â Chonwy.
57.12.3 Gwrych ger Capel Bethabara (Ysgol Bro Cernyw) wedi gordyfu.
57.12.4 Diane Roberts yn gofyn am ffurflen i nodi hel sbwriel gyda Cadwch Gymru'n Daclus.
57.12.5 Baw cŵn ger stad Glan Collen eto.
57.12.6 Deellir bod rhywun yn cysgu yn yr arhosfan bws yn Llangernyw.
57.12.7 Allt Waterloo yn beryglus iawn – ffordd yn rhoi.
57.12.8 Hen Ysgol Llangernyw- PENDERFYNWYD gwadd y Parch Sally Rogers i'r cyfarfod nesaf i siarad yn fyr am y prosiect.

57.13 BILIAU

| | |
|---|---|
| Mrs T Roberts (blodau i Bandy Tudur) | £10 |
| Clwyd Signs (Arwyddion plant Pandy Tudur) | £66 |
| D Evans (Pumed toriad Mynwentydd) | £360 |
| SLCC (Cwrs Clercod yn Llandudno) | £82.80 (Bydd bwrsari tuag ato) |
| Canolfan Bro Cernyw (Hurio) | £20 |
| Howell Jones Cyfreithwyr (Costau Toiledau) | £375 |
| Ann Vaughan (Ffi sefydlu Cwmni Menter Bro Cernyw) | £44.45 |

Daeth y cyfarfod i ben am 8.10 pm

*Cymeradwywyd y Cofnodion .....G A Jones........................... Dyddiad ....28/9/16.........................*

*Community Council Meeting was held on Monday 5 September 2016 at 6.30 pm at Canolfan Bro Cernyw*

*Apologies: there was no apology.*

*Present - Gwydion A Jones (Chair), Diane M Roberts, Elen H. Edwards, R Emlyn Williams, Gwyn Williams, Ian W Griffith, Ifor G Edwards, Ann O Vaughan and Clerk. D Gwynfor Davies joined the meeting later.*

*57.1 DECLARATION - members were given the opportunity to declare a connection with an item on the agenda. Gwydion Jones expressed interest in Item 4b) Planning Application number 0/43075*

*57.2 HIGHWAYS AND ENVIRONMENTAL ISSUES – it was asked when will the Department of Highways / Bridges start work on the bridge Afon Dyffryn Gall - the Clerk to contact. Reported that children playing warning notices have been installed at Pandy Tudur.*

*57.3 SALT BAGS - received reply from Conwy Council stating that the Community Council would be responsible for insuring the salt bag scheme. RESOLVED unanimously not to join the scheme.*

*D Gwynfor Davies arrived at the meeting.*

*57.4 PLANNING MATTERS*
*57.4.1 Application No. 0/43036 Replacement agricultural shed on land adjacent to Pentre Smithy, Llangernyw by Mr Dwyfor Roberts - RESOLVED unanimously to support the application if the entrance location is suitable because the position of the gate is not clear on the plan.*
*57.4.2 Application No. 0/43075 Adapting agricultural hardstanding at Hendre Llwyn y Maen, Llangernyw by Mr Robin Crossley - Gwydion Jones left the meeting and Gwyn Williams the Vice Chairman came to the chair. RESOLVED unanimously to support the application.*
*Gwydion Jones came back to the meeting.*
*57.4.3 Upgrade Telecommunications Mast in Gallt y Celynl, Pentrefoelas by Clarke Telecom – application was viewed for information. The Clerk had sent comments of no objection after consulting with the Chairman during the holidays.*

*57.5 LLANGERNYW TOILETS*
*Letters from the Solicitors Howell Jones and documents regarding the position of the toilet were received and asking for payment before starting work. RESOLVED unanimously to sign the contract and pay the initial amount. To ask if it was possible to transfer immediately to Menter Bro Cernyw but to identify in the agreement that first offer to buy the toilets comes to the Community Council if the company is wound up. Clerk to note that we agree with the Land Registry Office plan in terms of location of the toilets. Two members and the Clerk went along to measure the borders following the meeting. Also decided that Clerk to contact Steve Teale, Conwy Council to explain the situation and give an estimate of the costs and send a copy to Elen Edwards.*

*57.6 CO-OPTION ON COMMUNITY COUNCIL - explained that a notice was displayed inviting nominations for the vacant seat in Gwytherin Ward and it is understood that some have shown interest. RESOLVED to ask them to write to the Council detailing their background and give*

*reasons for their desire to represent the community of  Gwytherin (no more than 200 words) and the letters to be received before the next meeting.*

*57.7 PROPOSALS FOR THE ANNUAL MEETING ONE VOICE WALES -  the proposals were looked at and advised the Chair on how to vote at the Meeting on October 1.*

*57.8 LETTER FROM ARQIVA RE PEN Y FRON, GWYTHERIN MAST- received a copy of a letter received through Mr David Jones MP from Arqiva indicatithe project didn't go aheadt - problems with the mortgage provider and technical difficulties with the second site and lack of time to complete the plan. RESOLVED to note this in the next newsletter and send copies of letters to Elen Edwards.*

*57.9 CONNECTING NORTH WALES WINDFARMS - received a letter stating that the appeal to lay electric cables underground had been refused.*

*57.10 CHRISTMAS LIGHTS INSTALLATION - The Clerk to send the rules forward to Ian W Griffith and Canolfan Bro Cernyw Management Committee.*

*57.11 CORRESPONDENCE - the Clerk to send these emails to members.*

*57.12 LOCAL ISSUES*
*57.12.1 Very difficult to join the A548 near the Stag and cars speeding through the village.*
*57.12.2 Public footpath near the Bridge Inn has been moved - need to be contact Conwy again.*
*57.12.3 Hedge  near Bethabara Chapel (Ysgol Bro Cernyw) overgrown.*
*57.12.4 Diane Roberts asking for a form to make note of litter picking with Keep Wales Tidy.*
*57.12.5 Dog dirt near Glan Collen estate again.*
*57.12.6 It is understood that someone is sleeping in the bus stop in Llangernyw.*
*57.12.7 Waterloo Hill is very dangerous – road giving.*
*57.12.8 Llangernyw Old School RESOLVED that Rev Sally Rogers be invited to the next meeting to speak briefly about the project.*

*57.13 BILLS*
*Mrs T Roberts (flowers for Pandy Tudor) £ 10*
*Clwyd Signs (Pandy Tudur Children Signs) £ 66*
*D Evans (Fifth cut to Cemeteries) £ 360*
*SLCC (Clerks course in Llandudno) £ 82.80 (Bursary awarded)*
*Canolfan Bro Cernyw (Hire) £ 20*
*Howell Jones Solicitors (Toilet costs) £ 375*
*Ann Vaughan (Fee for establishing Cwmni Menter Bro Cernyw) £ 44.45*

*Approved the Minutes ..G A Jones...................................... date ..........28/9/16.............................*